# Adolygiad dilynol o weithredu argymhellion o'r astudiaethau ar arlwyo a chontractau meddygon ymgynghorol

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 201A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Andrew Strong.

# Cynnwys

Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) wedi gwneud cynnydd cymharol dda wrth weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio blaenorol ar arlwyo mewn ysbytai a gwireddu buddiannau contractau meddygon ymgynghorol. Fodd bynnag, nid yw'r holl argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd mewn nifer o feysydd pwysig y mae angen ei gwblhau nawr fel mater o flaenoriaeth.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd arlwyo mewn ysbytai, yn benodol mewn sgrinio maethol a gwella cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff arlwyo | 6 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud peth cynnydd da wrth ddiweddaru cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â gweddill y camau gweithredu o'r adroddiad ar gontractau meddygon ymgynghorol | 7 |
| Atodiadau | |
| Cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion | 9 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Amlygodd ein gwaith archwilio blaenorol ar arlwyo mewn ysbytai (adroddiad Tachwedd 2010) a gwireddu buddiannau contractau meddygon ymgynghorol y GIG (adroddiad Mawrth 2011) nifer o feysydd lle gallai'r Ymddiriedolaeth wneud gwelliannau i'r trefniadau a oedd yn bodoli adeg yr archwiliad. Dyma oedd y casgliadau cyffredinol o'r ddwy astudiaeth hyn:

- mae'r gwasanaeth arlwyo a rheolaeth maethol yn arddangos sawl agwedd o arfer da cydnabyddedig er y gallai sgrinio maethol a chyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff arlwyo gael eu gwella; ac
- er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi, nid yw'r dull presennol yn ddigon cadarn eto i sicrhau bod buddiannau llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu.

**2.** Yn y ddau adolygiad, fe wnaeth yr archwilwyr nifer o argymhellion i gynorthwyo â gwella'r gwasanaeth. Fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio dilynol yn yr Ymddiriedolaeth, gwnaethom waith a wnaeth geisio mesur y cynnydd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiadau archwilio blaenorol.

**3.** Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn:

- 'A yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r argymhellion archwilio blaenorol o'r adolygiadau o arlwyo mewn ysbytai a gwireddu buddiannau contract meddygon ymgynghorol y GIG?'

**4.** Ein casgliad cyffredinol yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd gweddol dda wrth weithredu'r argymhellion a ddeilliodd o'n gwaith archwilio blaenorol ar arlwyo mewn ysbytai a gwireddu buddiannau contract meddygon ymgynghorol. Fodd bynnag, nid yw'r holl argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn ac mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo mewn nifer o feysydd pwysig, y mae angen ei gwblhau bellach fel mater o flaenoriaeth.

**5.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi canfod:

- bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd arlwyo mewn ysbytai, yn benodol ym meysydd sgrinio maethol a gwella cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff arlwyo; a
- bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud peth cynnydd da wrth ddiweddaru cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol, ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â gweddill y camau o adroddiad y contract meddygon ymgynghorol.

**6.** Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried yn fanylach yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**7.** O ganlyniad i'r adolygiad hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd pellach er ein bod wedi gwneud rhai sylwadau y dylai'r Ymddiriedolaeth eu hystyried ochr yn ochr â rhai argymhellion sy'n parhau ar waith.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd arlwyo mewn ysbytai, yn benodol mewn sgrinio maethol a gwella cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff arlwyo

**8.** Rydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu'r argymhellion o'n harchwiliad o berfformiad a gafodd eu cynnwys yn ein hastudiaeth o Arlwyo mewn Ysbytai ym mis Tachwedd 2010. Rydym wedi cydweithio â staff priodol i sefydlu'r camau a gymerwyd i gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad ac i asesu'r cynnydd a wnaed lle nad yw'r argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto.

**9.** At ei gilydd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad ar arlwyo mewn ysbytai. Mae'r cynnydd a wnaed yn 2011 ar draws nifer o faterion arlwyo yn cynnwys:

- adolygu'r trefniadau ar gyfer monitro risgiau i berfformiad a gwasanaethau drwy gyfrwng grwpiau'r Ymddiriedolaeth a'i strwythur pwyllgorau;
- cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd trwy gofnodi gor-gynhyrchu a'r rhesymau dros ormod o wastraff yn fanylach;
- gwella cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff maeth ynghylch gofynion deietegol cleifion trwy roi llwybr gofal maethol Cymru gyfan (wedi'i seilio ar arweiniad Moreland) ar waith;
- cael mwy o gydymffurfio â safonau sgrinio maethol trwy asesu holl ofynion deietegol cleifion sy'n aros yn yr ysbyty pan fyddant yn cyrraedd; a
- datblygu cynlluniau gofal maethol unigol ar gyfer cleifion y mae asesiad yn dangos bod ganddynt neu fod risg ganddynt o fod â gofynion deietegol ychwanegol.

**10.** Er aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion, mae un argymhelliad yn parhau ar waith. Mae hwn yn gysylltiedig â'r cynlluniau i leihau lefel y cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion. Mae papur opsiynau ar y cymhorthdal wedi cael ei ddrafftio a disgwylir i'r rhain gael eu hystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2012.

**11.** Mae Atodiad 1 yn dangos yn fanwl y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn ôl pob un o'r argymhellion a wnaed yn ein hadolygiad gwreiddiol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud peth cynnydd da wrth ddiweddaru cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â gweddill y camau gweithredu o'r adroddiad ar gontractau meddygon ymgynghorol

**12.** Rydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu'r argymhellion o'n harchwiliad o berfformiad a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad o Gontract Meddygon Ymgynghorol ym mis Mawrth 2011. Rydym wedi adolygu cynllun gweithredu'r archwiliad ac wedi cydweithio â staff priodol i sefydlu'r camau a gymerwyd i gwblhau'r argymhellion yn yr adroddiad ac i asesu'r cynnydd a wnaed lle nad yw'r argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn eto.

**13.** At ei gilydd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud peth cynnydd da wrth gwblhau cynlluniau swyddi wedi'u diweddaru ar gyfer pob meddyg ymgynghorol ac wrth weithredu nifer o argymhellion yr archwiliad er bod angen gwaith pellach mewn nifer o feysydd eraill. Mae'r cynnydd a wnaed yn 2011 yn cynnwys:

- cwblhau cynlluniau swyddi wedi'u diweddaru ar gyfer pob meddyg ymgynghorol;
- datblygu fersiwn electronig o dempled y cynllun swydd a rhoi hwn i feddygon ymgynghorol ei ddefnyddio wrth gynllunio swydd a rhoi digon o rybudd i feddygon ymgynghorol baratoi ar gyfer cyfarfodydd cynllunio swydd;
- cydbwyso llwythi gwaith meddygon ymgynghorol trwy rannu sesiynau'n fwy teg a lleihau nifer sesiynau cyfartalog y meddygon ymgynghorol o 11.84 ym Mawrth 2011 i 10.3 yn Ionawr 2012;
- argraffu nifer y sesiynau y gwnaeth meddygon ymgynghorol eu gweithio ar eu slipiau cyflog;
- cadarnhau bod lefel yr amser rheoli mewn cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol a lefel yr adborth gan reolwyr i gyfarfodydd cynllunio swyddi yn briodol; a
- chyflwyno data Gwasanaeth Gwaed Cymru am sesiynau meddygon ymgynghorol i Lywodraeth Cymru.

**14.** Nid yw pob argymhelliad wedi cael ei roi ar waith, ac mae rhai yn ymestyn y tu hwnt i'w dyddiad gweithredu arfaethedig gwreiddiol. Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael ar fyrder â'r meysydd hyn sy'n parhau ar waith:

- cwblhau hyfforddiant i feddygon ymgynghorol ar gynllunio swydd;
- adolygu canllawiau sy'n cael eu defnyddio gan fyrddau iechyd lleol ar gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol a defnyddio'r rhain i hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin ymhlith meddygon ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth;
- cryfhau'r wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei defnyddio mewn cynllunio swyddi a datblygu dangosyddion canlyniadau newydd lle bo'r angen; a

- chwblhau'r gwaith y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i gychwyn i fesur lefel bresennol a lefel gyfartalog y Gweithgarwch Proffesiynol Ategol (SPA) a dosbarthu canllawiau i feddygon ymgynghorol ar SPA.

**15.** O'r 11 o argymhellion a wnaed 11 mis yn ôl, mae tri o'r argymhellion yn anghyflawn o hyd. Mae Atodiad 1 yn dangos yn fanwl y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn ôl pob un o'r argymhellion a wnaed yn ein hadolygiad.

# Atodiad 1

## Cynnydd a wnaed o ran argymhellion

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| A1 | Dylid asesu a yw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu perfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth drwy Grŵp Rheoli Haint yr Ymddiriedolaeth a'r Grŵp Rheoli Risg Isadrannol yn ddigonol, ac os nad ydynt, dylid ymestyn cwmpas yr adroddiadau a gyflwynir i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fel eu bod yn cynnwys dangosyddion perfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth. | **Cwblhawyd**<br>Adolygodd yr Ymddiriedolaeth ddigonoldeb y trefniadau ar gyfer gwneud adroddiadau ar berfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth yn gynnar yn 2011. Cafodd y rhain eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer y Ganolfan Ganser.<br>Canfu'r adolygiad hwn fod y trefniadau yn ddigonol ond fe wnaeth egluro a chryfhau'r ddealltwriaeth o'r trefniadau sy'n cynnwys:<br>• bod dangosyddion perfformiad gwasanaeth yn cael eu hadolygu gan y grŵp maeth cleifion mewnol sy'n is-grŵp i dîm arbenigol cleifion mewnol y safle;<br>• bod adroddiadau ar faterion ansawdd o safbwynt ansawdd bwyd neu berfformiad gwasanaeth yn cael eu gwneud i grŵp rheoli haint isadrannol y Ganolfan Ganser a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth; | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhellion | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| | | • bod adroddiadau ar risgiau i berfformiad ac ansawdd yn cael eu gwneud i grŵp rheoli risg y Ganolfan Ganser ac i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth; a<br>• bod risgiau ariannol, er enghraifft, y cymhorthdal arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion, yn cael eu hystyried gan grŵp sefydlogrwydd ariannol yr Ymddiriedolaeth.<br>Nid yw dangosyddion perfformiad ynghylch y gwasanaeth arlwyo yn cael eu cyflwyno fel mater o arfer i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fel rhan o drefniadau monitro perfformiad ehangach y Ganolfan Ganser. Mae adroddiadau am risgiau posibl i wasanaeth yn cael eu gwneud i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ôl eithriad yn ddibynnol ar lefel y risg.<br>Yn ddiweddarach yn 2012, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu'r holl drefniadau rheoli perfformiad a rhoi adroddiad ar y rhain i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. | | |
| A2 | Dylid cwblhau'r cynlluniau i leihau lefel y cymhorthdal a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion. | **Rhannol gyflawn**<br>Er, mae lefel y cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion wedi cael ei ostwng o £105,000 yn 2010-11 i £80,000 yn 2011-12. Paratowyd papur gan grŵp sefydlogrwydd ariannol yr Ymddiriedolaeth i ystyried yr opsiynau posibl o ran lleihau'r cymhorthdal ymhellach. Mae'r papur hwn yn disgwyl penderfyniad gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym Mawrth 2012. Bydd canlyniad y papur opsiynau yn cael ei roi ar waith yn ystod chwarter un yn 2012-13. | Ch1 2012-13 | Mae angen cwblhau'r gwaith i ystyried sut gall lefel y cymhorthdal a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion gael ei lleihau ymhellach ac mae angen gweithredu unrhyw gamau sy'n deillio o hyn. |

| Cyf | Argymhellion | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| A3 | Dylid adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer monitro gwastraff bwyd drwy:<br>• ystyried y rhesymau pam y caiff gormod o brydau bwyd eu hailgoginio, os bydd lefelau gwastraff yn uwch na throthwy y cytunwyd arno;<br>• cofnodi'r rhesymau pam y caiff gormod o brydau bwyd eu hailgoginio er mwyn canfod atebion i'r broblem; a<br>• sicrhau bod y diwrnod a ddewisir bob mis i gyfrifo cyfraddau gwastraff blynyddol yn nodweddiadol o'r mis hwnnw. | **Cwblhawyd**<br>Mae cynnydd yn y maes hwn yn cynnwys:<br>• Ers yr adroddiad gwreiddiol, mae'r broses ar gyfer archebu bwyd cleifion wedi newid. Nawr, lle bynnag y bo'n bosibl, gofynnir i gleifion tua dwy awr cyn pryd bwyd am eu dewis o fwyd. Mae hyn wedi helpu i atal gormod o brydau bwyd rhag cael eu hailgoginio.<br>• Er nad oes trothwy gwastraff ffurfiol wedi'i osod, os yw lefel y gwastraff yn cael ei hystyried yn uchel (er enghraifft, 15 y cant, neu uwch), gwneir ymchwiliad i'r rhesymau. Yna bydd adborth, pan fo'i angen, yn cael ei roi i'r staff arlwyo i leihau gwastraff bwyd.<br>• Mae nifer diwrnodau'r mis pan fydd gwastraff bwyd yn cael ei gofnodi wedi cynyddu er mwyn cynrychioli 'diwrnod nodweddiadol'. Mae gwastraff nawr yn cael ei gofnodi ddiwrnod bob wythnos er mwyn cynnig dadansoddiad manylach ar gyfer llunio cyfraddau gwastraff blynyddol. Os oedd lefel uchel o wastraff, byddai ymchwiliad i'r rhesymau. | Dd/B | Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 10 y cant ar gyfer gwastraff bwyd o brydau sydd heb eu gweini. Bydd disgwyl i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y gwastraff yn aros o fewn y targed hwn. |

| Cyf | Argymhellion | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| A4 | Dylid gwella trefniadau cyfathrebu mewn perthynas ag anghenion deietegol cleifion drwy:<br>• ddatblygu a chytuno ar fformat i nodi anghenion deietegol pob claf fel y gall staff arlwyo ar wardiau gymryd archebion cleifion a pharatoi prydau bwyd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod sgrinio maeth ar gyfer cleifion mewnol yn cael ei gyflawni gan ddeietgwyr a maethegwyr pan fydd y claf yn cyrraedd, yn unol â gofyniad llwybr gofal maethol Cymru gyfan. Caiff offeryn sgrinio maeth Moreland ei ddefnyddio i asesu gofynion deietegol cleifion. Bydd cynllun gofal unigol yn cael ei ddatblygu i gleifion yr ystyrir bod risg iddynt. Bydd unrhyw ofynion arbennig, er enghraifft, yr angen am atchwanegiadau, yn cael eu cyfleu i'r tîm arlwyo.<br>Mae cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff arlwyo ar wardiau wedi cael ei gryfhau drwy hysbysfwrdd 'cipolwg'. Mae hwn yn cynnwys statws maethol cleifion ac unrhyw ofynion ychwanegol. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhellion | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| A5 | Dylid cydymffurfio'n well â systemau sgrinio maeth drwy:<br>• ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio â staff nyrsio;<br>• sicrhau y caiff rhesymau dros beidio â sgrinio cleifion mewn perthynas â risg o ran maeth eu cofnodi yn y nodiadau achos nyrsio; a<br>• rhoi canllawiau ar ddefnyddio adnodd sgrinio maeth Moreland, gan gynnwys cadarnhau'r trothwy y dylid ei ddefnyddio i atgyfeirio cleifion i gael asesiad deietegol. | **Cwblhawyd**<br>Ers yr adroddiad gwreiddiol, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod gofynion deietegol pob claf mewnol yn cael eu hasesu pan fydd y claf yn cyrraedd, fel rhan o'r gofynion sgrinio sydd wedi'u cyflwyno yn Llwybr Gofal Maethol Cymru gyfan.<br>Mae'r holl staff nyrsio wedi cael hyfforddiant adnewyddu yn 2011 ar offeryn sgrinio maeth Moreland. Mae hyn yn cynnwys y pwyntiau ysgogi neu'r trothwyon pan gaiff cleifion eu cyfeirio i gael asesiad deietegol a phryd bydd angen atchwanegiadau.<br>Yn unol â'r prosiect 1000+ o fywydau, mae dwy set o nodiadau achos claf yn cael eu hadolygu bob mis. Byddai hyn yn nodi os na fu'r sgrinio a'r asesu maethol yn effeithiol. Fe wnaeth adborth o'r adolygiadau hyn yn gynnar yn 2011 cyn cwblhau'r hyfforddiant adnewyddu gynnwys y potensial i wella dogfennau'r asesiad maethol. Mae'r adolygiad hwn o nodiadau achos wedi dangos gwelliant yn y sgrinio maethol ers yr hyfforddiant adnewyddu.<br>Caiff copi papur o lwybr gofal maethol Cymru gyfan ac offeryn sgrinio maeth Moreland ei gadw ar bob ward. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Arlwyo mewn Ysbytai – Tachwedd 2010 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ganser yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr Arlwyo)** | | | | |
| A6 | Dylid cytuno ar ddull gweithredu mewn perthynas â chynlluniau gofal maethol sy'n nodi nifer sylfaenol o gamau ar gyfer y lefelau risg gwahanol yn dibynnu ar sgôr risg Moreland. | **Cwblhawyd**<br>Mae cynlluniau gofal maethol ac offeryn llwybr wedi'u sefydlu a'u defnyddio ar sail y canllawiau cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod cynllun gofal maethol unigol yn cael ei ddatblygu ar sail anghenion maethol ar gyfer cleifion y nodwyd bod risg ganddynt drwy'r cynllun gofal maethol a'r offeryn. Mae'r adolygiad misol o nodiadau achos claf a grybwyllwyd uchod yn cael ei ddefnyddio i wirio bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu lle bo hynny'n briodol. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| 1 | Rhoi canllawiau ysgrifenedig clir i feddygon ymgynghorol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio swyddi gan gynnwys ei dull o ddatblygu canlyniadau CAMPUS. | **Parhaus**<br>Mae'r arweiniad presennol ar gynllunio swyddi ar sail Cymru gyfan wedi'i adolygu gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA). Dywed canlyniad yr adolygiad hwn fod y canllawiau yn ddigonol ond mae hyfforddiant pellach yn yr arfaeth ar gyfer meddygon ymgynghorol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin. Bwriedir cwblhau'r hyfforddiant erbyn gwanwyn 2012.<br>Ddiwedd 2011, fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth fynychu'r gweithgor uchod ar ran grŵp GIG Cymru i gytuno ffordd ymlaen gyda'r BMA ynghylch canllawiau a hyfforddiant ar gynllunio swyddi.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu defnyddio'r hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio swydd a datblygu canlyniadau CAMPUS.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o ganllawiau cynllunio swyddi sy'n cael eu dosbarthu i feddygon ymgynghorol mewn byrddau iechyd lleol a bydd hefyd yn anelu at gael ac efallai defnyddio'r rhain fel canllaw pan fydd hi'n amser adnewyddu cynlluniau swyddi, fel y bo'n briodol i'r Ymddiriedolaeth. | Gwanwyn 2012 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau'r hyfforddiant arfaethedig ar gynllunio swyddi a datblygu canlyniadau CAMPUS.<br>Yn y cyfamser, mae potensial am ddefnyddio'r canllawiau i feddygon ymgynghorol sy'n cael eu defnyddio gan fyrddau iechyd lleol eraill ar gyfer cynllunio swyddi. Er, bydd angen addasu'r rhain yn ôl amcanion strategol a blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth. |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| 2 | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer defnyddio gwybodaeth am berfformiad wrth gynllunio swyddi a, lle y bo angen, datblygu dangosyddion canlyniadau newydd os nad oes digon o wybodaeth ar gael. | **Parhaus**<br>Mae Cyfarwyddwyr Meddygol a Chlinigol yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen cryfhau'r wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei defnyddio wrth gynllunio swydd ac i ddatblygu dangosyddion canlyniadau newydd lle y bo angen.<br>Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i nodi a chael at ddangosyddion canlyniadau priodol.<br>Mae swydd wybodaeth newydd wedi'i chymeradwyo yn y Ganolfan Ganser a fydd yn helpu i nodi a datblygu gwybodaeth briodol am berfformiad. | I'w gadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth. | Dylai'r Ymddiriedolaeth osod targed gweithredu er mwyn sefydlu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer cynllunio swyddi. |
| 3 | Datblygu fersiwn electronig o'r templed cynllun swydd er mwyn sicrhau bod cynlluniau swyddi cymhleth yn gywir ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd glir a thryloyw. | **Cwblhawyd**<br>Mae fersiwn electronig o'r templed cynllun swydd ar gael bellach i feddygon ymgynghorol i'w ddefnyddio wrth gynllunio swyddi.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn deall bod y BMA (Lloegr) wedi cyflwyno canllawiau newydd ar gynllunio swyddi a bod hyn yn cael ei ystyried gan BMA (Cymru).<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diweddaru ei fersiwn electronig o'r templed cynllun swydd os caiff canllawiau newydd eu cyhoeddi. | Dd/B | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei fersiwn electronig o'r templed cynllun swydd, fel y bo'n briodol, pan fydd canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi. |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| 4 | Cyfleu neges glir ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â gweithgarwch SPA, a datblygu canlyniadau a ddiffinnir yn glir ar gyfer pob SPA yn y cynllun swydd, gan gynnwys gwybodaeth am leoliad sesiynau SPA. | **Parhaus**<br>Mae'r cyfarfodydd adolygu cynllun swydd a gwblhawyd ers yr adroddiad wedi lleihau gweithgarwch SPA lle nad yw'n briodol. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur gweithgarwch SPA cyfartalog meddygon ymgynghorol.<br>Yn ystod gwanwyn 2012, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gyflwyno neges glir ynghylch yr hyn sy'n weithgarwch SPA, a datblygu canlyniadau a ddiffinnir yn glir ar gyfer pob SPA yn y cynllun swydd, gan gynnwys gwybodaeth am leoliad sesiynau SPA.<br>Bydd y wybodaeth a geir oddi wrth fyrddau iechyd lleol yn y maes hwn yn cael ei defnyddio i lywio canllawiau'r Ymddiriedolaeth er dylid teilwra lefel yr SPA i'r Ymddiriedolaeth. | Ebrill 2012 | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| 5 | Datblygu dull o leihau llwythi gwaith gormodol a sicrhau eu bod yn gytbwys, er mwyn i waith gael ei rannu'n deg o fewn timau meddygon ymgynghorol. | **Cwblhawyd**<br>Yn dilyn y cylch diwethaf o gynllunio swyddi yn 2011, mae nifer y sesiynau cynllunio swyddi rhwng meddygon ymgynghorol wedi'u rhannu'n deg.<br>Mae hyn wedi gostwng nifer cyfartalog sesiynau meddygon ymgynghorol o 11.84 i 10.3.<br>Ers yr adolygiad ym Mawrth 2011, mae pum meddyg ymgynghorol ychwanegol wedi'u recriwtio ac mae hyn wedi helpu i leihau'r pwysau ar nifer a lefel sesiynau meddygon ymgynghorol. | Dd/B | Dd/B |
| 6 | Ymchwilio i sut y gellir argraffu sesiynau meddygon ymgynghorol ar eu slipiau cyflog er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n glir i bawb dan sylw. | **Cwblhawyd**<br>Ar y cyd â Phartneriaeth Cydwasanethau GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymchwilio i sut y gellir argraffu sesiynau meddygon ymgynghorol ar slipiau cyflog.<br>Ers diwedd Chwefror 2012, mae nifer sesiynau wedi cael ei argraffu ar slipiau cyflog pob meddyg ymgynghorol. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser** | | | | |
| 7 | Sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn meddu ar gynllun swydd cyfredol a bod cynllun swydd pob meddyg ymgynghorol yn cael ei adolygu yn flynyddol. | **Cwblhawyd**<br>Mae gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd cyfredol erbyn hyn ac mae ei gynllun swydd yn cael ei adolygu yn flynyddol.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod y broses cynllunio swydd a gwerthuso swydd wedi cyflwyno llwyth gwaith i Gyfarwyddwyr Meddygol a Chlinigol. Felly, mae'r trefniadau cefnogaeth weinyddol wedi cael eu hadolygu a bydd swyddog gweinyddol ychwanegol ar gael yn gynnar yn 2012 yn dilyn proses recriwtio. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser** | | | | |
| 8 | Sicrhau bod meddygon ymgynghorol yn cael rhybudd digonol o gyfarfodydd cynllunio swyddi (pedair i chwe wythnos) er mwyn sicrhau bod ganddynt amser i baratoi'n llawn. | **Cwblhawyd**<br>Mae meddygon ymgynghorol yn cael eu hatgoffa am y cyfarfod cynllunio swyddi tua phedair i chwe wythnos ymlaen llaw. Mae swyddog cymorth gweinyddol yn anfon neges e-bost atgoffa at feddygon ymgynghorol er mwyn iddynt baratoi ar gyfer y cyfarfod. | Dd/B | Dd/B |
| 9 | Egluro a dogfennu yn y cynllun swydd yr hyn y mae meddygon ymgynghorol yn ei wneud yn ystod amser rheoli i sicrhau bod y lefel uchel o sesiynau cyfartalog yn briodol. | **Cwblhawyd**<br>Mae Cyfarwyddwr Meddygol yr Ymddiriedolaeth wedi ymchwilio i lefel uchel yr amser rheoli cyfartalog sy'n cael ei gofnodi yng nghynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn fodlon bod lefel y sesiynau rheoli yn briodol ac yn angenrheidiol.<br>Mae'r cynllun swydd wedi cael ei newid ers hynny i gofnodi'r gweithgareddau sy'n cael eu hystyried yn amser rheoli yn fanylach. | Dd/B | Dd/B |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau targed | Sylw Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG - Mawrth 2011 (cynnydd ar sail adolygiad o gynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| **Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser** | | | | |
| 10 | Cytuno a yw'n briodol bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio swyddi yn mynd rhagddynt heb adborth gan reolwyr. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Canser wedi cytuno nad oes angen adborth gan reolwyr yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio swyddi a'i bod yn briodol bod y Cyfarwyddwr Clinigol yn bresennol.<br>Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Canser yn cyflwyno adborth gan reolwyr i'r cyfarfodydd cynllunio swyddi pan ddisgwylir newidiadau neu ystyriaethau mawr. | Dd/B | Nodir y penderfyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Canser, er y dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau nad yw'n colli cyfle i sicrhau perthynas waith agosach rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr. |
| **Argymhellion ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| 11 | Sicrhau bod data ar sesiynau meddygon ymgynghorol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad yn amserol fel rhan o waith monitro blynyddol. | **Cwblhawyd**<br>Yn fuan ar ôl ein hadolygiad, ym mis Mehefin 2011, cyflwynwyd data Gwasanaeth Gwaed Cymru ar sesiynau meddygon ymgynghorol i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses fonitro flynyddol. | Dd/B | Dd/B |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk